



Therapi lleferydd ac iaithTM
yn trawsnewid bywydau



Beth yw therapi lleferydd ac iaith?

Beth mae therapyddion lleferydd ac iaith yn ei wneud?

- Mae therapyddion lleferydd ac iaith (SLT) yn darparu triniaeth, cefnogaeth a gofal i wella bywydau plant ac oedolion sy'n cael anhawster gyda chyfathrebu, bwyta, yfed neu lyncu.
- Mae SLT yn asesu a thrin problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn pobl o bob oed i'w helpu i gyfathrebu'n well. Maen nhw hefyd yn asesu, trin a datblygu cynlluniau personol i gefnogi pobl sydd â phroblemau bwyta a llyncu.
- Gan ddefnyddio sgiliau arbenigol, mae SLT yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid a'u gofalywyr ac yn rhoi cefnogaeth wedi ei deilwrio ar eu cyfer. Maen nhw hefyd yn gweithio'n agos gydag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill, fel meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eraill a seicolegwyr i ddatblygu rhaglenni triniaeth unigol.

Pwy sy'n elwa ar therapi lleferydd ac iaith?

Mae therapi lleferydd ac iaith yn dod â budd i bobl o bob oed, er enghraifft:

- **Plant bach:** mae SLT yn cefnogi babanod cynamserol a phlant bach gyda chyflyrau fel parlys yr ymennydd, tafnod hollt a syndrom Down o gyfnod cynnar iawn eu bywyd sy'n cael anawsterau gydag yfed, llyncu, chwarae cynnar a sgiliau cyfathrebu.
- **Plant:** mae SLT yn cefnogi plant sydd ag anawsterau sylfaenol gyda lleferydd a chyfathrebu, fel atal dweud, yn ogystal ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n eilaidd i gyflyrau eraill fel anawsterau dysgu a phroblemau clyw.
- **Oedolion gydag anawsterau dysgu:** mae SLT yn cefnogi oedolion sydd â chyflyrau datblygiadol, awtistiaeth a syndrom Down.
- **Oedolion:** mae SLT yn cefnogi oedolion gydag anawsterau cyfathrebu a/neu llyncu o ganlyniad i gyflwr meddygol fel strôc, canser y pen a'r gwddf, clefyd Parkinson a dementia



Wyddech chi?

- ▶ Gall bron i **20%** o'r boblogaeth brofi anawsterau cyfathrebu ar ryw bwynt yn eu bywydau.ⁱ
- ▶ Mae gan **7%** o blant tua phump oed amhariad penodol o ran lleferydd ac iaith ii ac mae gan **1.8%** arall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu cysylltiedig â chyflyrau eraill fel anabledd dysgu, parlys yr ymennydd, anhwylderau sbectrwm awtistiaeth.ⁱⁱ
- ▶ Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r math mwyaf cyffredin o angen addysgol arbennig mewn plant 4-11 oed.^{iv}
- ▶ Yn rhai ardaloedd amddifadedd cymdeithasol gall hyd at **hanner y plant** ddechrau'r ysgol gyda sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu cyfyngedig.^v
- ▶ Bydd tua **thraean o bobl** wedi cael rhyw lefel o anawsterau cyfathrebu (o'r enw affasia) yn dilyn strôc.^{vi}
- ▶ Gall mwy na **60%** o droseddwy'r ifanc fod ag anawsterau gyda lleferydd, iaith neu gyfathrebu.^{vii}





Sut gall therapi lleferydd ac iaith helpu

Stori Muriel: roedd Muriel yn cael trafferth dod o hyd i eiriau a chael problemau gyda'i chof o ganlyniad i glefyd Alzheimer. Roedd ei chyflwr yn gwneud gweithgareddau cyffredin yn anodd ac yn effeithio ar ei gallu i gyfathrebu gydag eraill. Daeth therapydd lleferydd ac iaith i helpu Meriel a'i theulu i ddeall cyflwr Meriel a chynllunio strategaethau i ymateb i hynny. Mae Meriel yn teimlo fod therapi wedi ei helpu i ddatblygu ei sgiliau iaith a gwneud iddi deimlo'n "fwy fel hi ei hun unwaith eto".

Stori Alan: ar ôl cael strôc ysgafn, roedd Alan yn methu llyncu bwyd na hylif ac yn gorfod derbyn bwyd, hylifau a meddyginiaeth trwy diwb. I'w helpu i wella bu therapydd lleferydd ac iaith yn gweithio gydag Alan ar amrywiaeth o ymarferion dyddiol i adennill ei allu i lyncu. Dechreuodd Alan ennill tir yn gyflym ac erbyn hyn mae'n ôl ar fwyd solet ac yn gobeithio cael tynnu ei diwb yn fuan.

Stori Cayden: yn dair oed nodwyd fod gan Cayden anhwylder sain llefaru. Roedd yn ei chael hi'n anodd cael neb ond ei fam a'i dad i'w ddeall yn siarad ac roedd plant eraill yn ei wawdio oherwydd ei anhawster siarad. Yn dilyn tair blynedd o therapi lleferydd dwys, yn ôl ei fam mae bywyd Cayden wedi ei drawsnewid. Mae ei sgiliau cyfathrebu a'i berfformiad addysgol wedi gwella; mae'n mwynhau siarad yn gyhoeddus ac mae wedi gwneud ffrindiau newydd.



Ymhle mae therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio?

Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cydweithio gyda phlant, oedolion, teuluoedd a'r gweithlu ehangach i wneud asesiadau a chynllunio rhaglenni therapi personol sy'n cwrdd ag anghenion cyfathrebu a llyncu pob unigolyn.

Maen nhw'n gweithio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac amgylcheddau gan gynnwys:

- canolfannau iechyd cymunedol
- wardiau ysbyty ac unedau gofal dwys
- adrannau cleifion allanol
- canolfannau plant, ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig
- unedau asesu, canolfannau dydd a chartrefi nyrsio
- cartrefi cleientiaid
- llysoedd barn, carchardai a sefydliadau troseddwy'r ifanc

Mae tua 12,500 o therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf yn cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; fodd bynnag, mae nifer cynyddol yn gweithio'n llwyr neu'n rhannol mewn addysg neu i elusennau ac yn trin cleifion yn breifat (yn ogystal ag mewn meysydd eraill).

CYFEIRNODAU AC ADNODDAU

ⁱ Scottish Executive Social Research (2007) *Communication support needs, a review of the literature*. www.qmu.ac.uk/casl/pubs/communication_support_needs_lit_review_2007.pdf

ⁱⁱ Tomblin, J. B., et al. (1997), 'Prevalence of Specific Language Impairment in Kindergarten Children', *Journal of Speech, Language and Hearing Research*, 40, tt. 1245-60. <http://jslhr.asha.org/cgi/content/abstract/40/6/1245>

ⁱⁱⁱ Enderby et al (2013) *Beyond the Anecdote: Examining the need for, and provision of, AAC in the United Kingdom*. Communication Matters

^{iv} Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac iaith (2012) *Better Communication: Shaping speech, language and communication services for children and young people*

^v Locke, A., Ginsborg, J. and Peers, I. (2002) Development and disadvantage: implications for the early years and beyond, *International Journal of Language and Communication Disorders*, 37(1), tt. 3-15. <http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1080/13682820110089911/abstract>

^{vi} Y Gymdeithas Strôc (2012). *Speech and Language Therapy after Stroke*. Stroke Association: Llundain

^{vii} Bryan K, Freer J, Furlong C. Language and communication difficulties in juvenile offenders. *International* ; 42, 505-520.